



Drwy e-bost

Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg

18 Rhagfyr 2020

Annwyl Weinidog,

Rydym yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr a'ch cyfarwyddyd amgaaedig, dyddiedig 14 Rhagfyr 2020.

Ystyriodd ein Bwrdd eich cyfarwyddyd o ran dull gweithredu polisi Llywodraeth Cymru; yn ogystal ag argymhellion y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni; barn ein grŵp rhanddeiliaid ni ein hunain; cyngor ein swyddogion; a'r cyd-destun ehangach lle y dylid edrych ar benderfyniadau ynghylch asesu cymwysterau i'w dyfarnu yn haf 2021 yn ei gyfarfod Bwrdd ar 15 Rhagfyr 2020.

Yn ystod y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Bwrdd reoleiddio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru yn unol â'r dull polisi a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru fel y'i mynegir yn eich cyfarwyddyd ac argymhellion y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni fel y nodir yn eu dogfen gonsensws.

Wrth ddod i'w benderfyniad, bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried materion cysylltiedig eraill, a gofynnodd am i'r ymateb i'r cyfarwyddyd gynnig ei feddyliau ar y canlynol:

- Mae chweched pwynt bwled y cyfarwyddyd yn cydnabod y bydd angen ystyried a rhoi amryw o drefniadau pellach ar waith i gefnogi'r dull rheoleiddio cyffredinol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer adolygu marcio ac apelio, mynediad at ymgeiswyr preifat a gweithdrefnau ystyried arbennig. Penderfynodd Bwrdd Cymwysterau Cymru y byddai'n briodol i'w swyddogion barhau i glywed barn y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni ar y materion hyn, ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni ar y materion hyn a materion eraill sy'n gysylltiedig â darparu cymwysterau yn 2021.
- Nododd y Bwrdd eich bod chi, a'r "Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Haf 2020 i Ddyfarnu Graddau, ac Ystyriaethau ar gyfer Haf 2021" ("yr Adolygiad Annibynnol") wedi derbyn sicrwydd gan sefydliadau Addysg Uwch na fydd dysgwyr Cymru dan anfantais yn sgil y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen ag arholiadau a gydlynir ac sy'n cael eu hamserlennu'n genedlaethol. Mae angen i ni nawr weithio gyda chi ac eraill yn y sector addysg yng Nghymru i sicrhau bod sefydliadau Addysg Uwch yn deall y dulliau asesu arfaethedig ac yn sicr o gael canlyniadau yng Nghymru yn 2021.
- Ystyriodd y Bwrdd yr egwyddor, fel y nodir yn ein llythyr atoch dyddiedig 1 Rhagfyr, y dylid defnyddio safon debyg i'r un a ddefnyddir mewn TGAU, UG a Lefel A yn Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddyfarnu cymwysterau sy'n gredadwy er mwyn sicrhau tegwch

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

i ddysgwyr yng Nghymru. Er y gall modelau asesu amrywio ar draws awdurdodaethau, rydym o'r farn bod hon yn ystyriaeth bwysig wrth gyflawni ein dyletswydd i ystyried y materion a nodir yn adran 3 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Yn benodol, y ddyletswydd i ystyried a yw cymwysterau'n nodi lefel cyrhaeddiad gyson â'r hyn a nodwyd gan beth bynnag y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn gymwysterau tebyg, p'un ai a ydynt yn cael eu dyfarnu yn Ewrop neu yn rhywle arall. Ar 3 Rhagfyr 2020 cyhoeddodd yr Adran Addysg yn San Steffan y dylai dyfarniadau yn haf 2021, yn Lloegr, ddangos lefelau haelioni cyffredinol tebyg i'r rhai a wnaed yn haf 2020. Mae hyn yn amlwg yn unol â'n barn y dylai'r canlyniadau fod yn unol yn fras â'r rhai a welwyd yn 2020 a'r sefyllfa bolisi a nodwyd yn eich cyfarwyddyd. Byddwn yn parhau i fonitro cwestiwn cymaroldeb wrth i fwy o waith gael ei wneud i gadarnhau'r gweithdrefnau manwl ar gyfer dyfarnu graddau yr haf nesaf.

- Mae angen myfyrio ar effaith ein penderfyniadau mewn perthynas â TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru ar gymwysterau galwedigaethol. Mae'r dirwedd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn gymhleth gydag ystod o gyrff dyfarnu yn cynnig ystod eang o gymwysterau gyda gwahanol ddibenion a llwybrau dilyniant. Mae'r rhan fwyaf o'r cymwysterau a gymerir gan ddysgwyr yng Nghymru hefyd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU. Caiff addasiadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol eu gweithredu gan gyrff dyfarnu yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol Estynedig yr ydym wedi'i roi ar waith gyda'n cyd-reoleiddwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fel rhan o'r Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol Estynedig mae'n ofynnol gennym fod gyrff dyfarnu, wrth ystyried yr addasiadau sydd i'w gwneud i'w cymwysterau, yn sicrhau cyn belled ag y bo modd nad yw dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau galwedigaethol dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion sy'n cymryd cymwysterau cyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a all unrhyw un o'r dulliau a roddir ar waith ar gyfer cymwysterau cyffredinol fod yn briodol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol sy'n debyg o ran strwythur a'r llwybrau dilyniant y maent yn eu cynnig.

O ystyried yr angen am i benderfyniad gael ei wneud yn brydlon ar y dull arfaethedig o asesu yn 2021, aeth y Bwrdd ymlaen i wneud ei benderfyniad ar 15 Rhagfyr 2020 fel y nodir uchod. Fodd bynnag, gwnaed y penderfyniad hwnnw o reidrwydd ar sail y sefyllfa iechyd bresennol yng Nghymru, gyda chydabyddiaeth o hylifedd y sefyllfa, sydd wrth gwrs yn arwain at risg. Teimlai'r Bwrdd ei bod yn briodol cydnabod y prif risgiau ar hyn o bryd, eich gwerthusiad ohonynt, a sicrhau bod cynllunio wrth gefn yn digwydd er mwyn lliniaru'r risgiau cyn belled ag y bo modd.

Dyma'r risgiau a nododd y Bwrdd a'r rhai maent yn bwriadu cynllunio o'u cwmpas:

- Bydd y broses ddyfarnu, hynny yw, y broses ar gyfer sefydlu ffiniau graddau, yn heriol. Er enghraifft, bydd yr asesiadau mewnol yn defnyddio cyn-bapurau lle mae ffiniau graddau wedi'u sefydlu dan amodau arholiad arferol. Efallai y bydd angen gosod ffiniau gradd gwahanol o ystyried y gwahanol amodau y bydd yr asesiadau hyn bellach yn cael eu cyflwyno oddi tanynt, a allai arwain at broffil perfformiad

dysgwr annodweddiadol. Er bod rhesymau technegol da pam y gallai hyn fod yn wir, mae risg na fydd rhanddeiliaid yn derbyn y rhesymau hyn ac yn ceisio taflu amheuaeth ar y broses. Roedd dyfarniadau yn 2020 yn sylweddol fwy hael na dyfarniadau a wnaed dan amodau arholiad arferol. Derbynnir y dylai dyfarniadau yn haf 2021 adlewyrchu lefel gyffredinol debyg o haelioni fel nad yw dysgwyr eleni, sydd wedi profi aflonyddwch sylweddol i'w dysgu, dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion o'r llynedd. Fodd bynnag, dylid nodi, fel gyda phob blwyddyn, y bydd canlyniadau ar lefel canolfan a phwnc yn amrywio o gymharu â'r llynedd; hynny yw, bydd rhai canolfannau'n gweld canlyniadau'n cynyddu ond bydd eraill yn gweld canlyniadau'n gostwng o gymharu â'r llynedd. O ystyried bod y canlyniadau wedi amrywio'n sylweddol ar lefel canolfan yn 2020, mae'n debygol y bydd ailgyflwyno dyfarnu ar sail tystiolaeth asesu (yn hytrach na dyfarnu graddau asesu canolfan gan ganolfannau) yn arwain at gyfnewidioldeb uwch na'r arfer mewn canlyniadau eleni ar lefel canolfan a phwnc.

- Yn dibynnu ar newidiadau i sefyllfa iechyd y cyhoedd yng Nghymru, gall y dull asesu fynd yn amhosib i'w gyflawni os, er enghraifft, y bydd ysgolion yn cael eu gorfodi i gau eto am gyfnod sylweddol. Rydym yn bwriadu ystyried trefniadau wrth gefn a chredwn fod rhinwedd mewn trafodaethau misol rhyngom ar yr agwedd hon er mwyn monitro hyfywedd y dull asesu a gynhwysir yn eich cyfarwyddyd.
- Rhwng y Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni a'n grŵp rhanddeiliaid ein hunain rydym wedi cael mewnbwn gan lawer o randdeiliaid allweddol i'r penderfyniadau ar asesu a wnaed gan y Bwrdd ar 15 Rhagfyr 2020. Serch hynny, rydym yn ymwybodol y gallai fod materion yn ymwneud â derbynoldeb gan randdeiliaid ehangach. Mae'n amlwg na fydd yna fyth ateb sy'n bodloni pawb, ond o ystyried yr heriau sy'n wynebu pob rhan o'r system addysg, mae angen i bawb yn y system gyd-dynnu er mwyn cynorthwyo dysgwyr i ennill cymwysterau a fydd yn caniatáu iddynt symud ymlaen.
- Er ein bod yn derbyn bod angen hyblygrwydd er mwyn gwneud asesiadau yn haf 2021 yn bosibl, rhaid inni dderbyn na fydd asesu yn digwydd o dan yr un amodau diogel, gyda'r holl ddysgwyr yn sefyll eu harholiadau ar yr un pryd. Efallai y bydd y newid hwn yn cael ei ystyried yn gyfaddawd annerbyniol gan rai rhanddeiliaid. Dim ond trwy ddibynnu ar y rhai yn y system i beidio â rhannu gwybodaeth am asesiadau y gellir lliniaru pryderon o'r fath. Er mwyn lliniaru'r risg hon, rydym yn bwriadu gweithio gyda CBAC i gyfathrebu'n eang ar bwysigrwydd cynnal uniondeb y dull er mwyn amddiffyn tegwch i ddysgwyr. Bydd hefyd yn bwysig edrych ar y gweithdrefnau camymddwyn arferol er mwyn sicrhau eu bod nhw, a'u cosbau bosibl, yn briodol o dan yr amgylchiadau.

Bydd risgiau eraill yn dod i'r amlwg, a byddwn yn eu hadolygu'n rheolaidd. Byddwn yn rhannu ein risgiau, ynghyd â mesurau wrth gefn a lleddfiadau lle bo'r rhain yn bosibl, gyda'ch swyddogion fel eu bod yn gwbl ymwybodol o lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r dull gweithredu.

Y cyfan sydd ar ôl i'w wneud yw i ni ddiolch i chi, eich swyddogion, a'r Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni, am y cynnydd adeiladol a wnaed yn dilyn eich cyfarwyddyd a

gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 a'n penderfyniad dilynol i beidio â bwrw ymlaen ag arholiadau wedi'u cydgysylltu a'u hamserlennu genedlaethol.

Yr eiddoch yn gywir,



David B Jones OBE DL
Cadeirydd



Philip Blaker
Prif Weithredwr